Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Newport Denture Clinic, Casnewydd
## Dyddiad yr arolygiad: 17 Mai 2022
## Dyddiad cyhoeddi: 18 Awst 2022



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad



ISBN digidol 978-1-80364-720-3
© Hawlfraint y Goron 2022

Roedd gan Newport Denture Clinic drefniadau ar waith i ddarparu gwasanaethau i gleifion a oedd yn diwallu eu hanghenion mewn modd amserol ac urddasol.

Canfuom fod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen gwelliant o ran gwirio'r pecyn cymorth cyntaf, cynnal archwiliadau a hefyd faint o fanylion a gofnodwyd yng nghofnodion cleifion.

Canfuom hefyd waith tîm effeithiol a gwelsom fod y personau cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w gwaith. Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith, ond roedd angen eu hadolygu. Rhaid i'r personau cofrestredig hefyd ymgyfarwyddo â gofynion y rheoliadau ar gyfer hysbysu AGIC am ddigwyddiadau penodol.

Mae canfyddiadau'r arolygiad a ddisgrifir yn yr adroddiad cryno hwn a'r adroddiad llawn yn ymwneud â'r amser y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Newport Denture Clinic, Casnewydd ar 17 Mai 2022

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol, ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd profiad y claf

## Crynodeb cyffredinol

- Gwelsom fod trefniadau ar waith yn y practis i ddarparu gwasanaethau i gleifion a oedd yn diwallu eu hanghenion mewn modd amserol ac urddasol.

## Yr hyn a ganfuom a wnaeth y gwasanaeth hwn yn dda

- Roedd sylwadau a dderbyniwyd gan gleifion yn yr holiaduron cleifion yn cadarnhau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a gawsant.

**Yng ngeiriau'r cleifion:**

Darparodd y cleifion y sylwadau canlynol i ni:

*"Ym mhob cam o'r driniaeth, esboniwyd y dewis o'r hyn a oedd ar gael i mi yn ofalus"*
*"Mae Steve a Rihanna yn gymwynasgar ac yn gyfeillgar. Does dim byd yn ormod o drafferth"*
*"Cyfeillgar a phroffesiynol"*
*"Da iawn. Cwrtais a pharchus"*

# Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

## Crynodeb cyffredinol

- Canfuom fod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion, ond nodwyd gennym fod angen gwelliant yn hyn o beth.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Mae angen sefydlu system addas ar gyfer gwirio cynnwys y pecyn cymorth cyntaf er mwyn nodi eitemau y mae angen eu hadnewyddu
- Mae angen llunio rhaglen archwilio reolaidd a'i gweithredu fel rhan o'r broses sicrhau a gwella ansawdd
- Dylai cofnodion gynnwys mwy o fanylion am archwiliadau y tu mewn a’r tu allan i’r geg ar gyfer cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn uniongyrchol.

# Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

## Crynodeb cyffredinol

- Canfuom waith tîm effeithiol yn y practis ac roedd y darparwr cofrestredig a'r rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w rôl.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Mae angen adolygu a diweddaru polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig mewn perthynas â'r practis fel eu bod yn adlewyrchu’r trefniadau yn y practis
- Rhaid adolygu a diweddaru'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion yn ôl yr angen
- Rhaid i'r personau cofrestredig ymgyfarwyddo â gofynion y rheoliadau ar gyfer hysbysu AGIC am ddigwyddiadau penodol
- Rhaid i dystysgrif cofrestriad AGIC y rheolwr cofrestredig gael ei harddangos ar y safle mewn modd amlwg.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon dybryd yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu o fewn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Gofynnwn i’r gwasanaeth gymryd camau brys pan fyddwn yn nodi pryderon sy’n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion. Mae’r pryderon hyn wedi’u hamlinellu yn yr atodiadau ac yn amlinellu’r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi’u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a fynegwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, mae AGIC yn gofyn i'r gwasanaeth gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i wasanaethau ddarparu tystiolaeth ddogfennol o’r camau a gymerwyd a/neu’r cynnydd a wnaed.

